

## ASESIADAU EFFAITH LLAWN

### A. ASESIAD EFFAITH AR HAWLIAU PLANT

Mae'n rhaid anfon **pob** Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant a gwblhawyd i flwch negeseuon e-bost [CRIA@gov.cymru](mailto:CRIA@gov.cymru)

#### 1. Disgrifiwch ac eglurwch effaith y cynnig ar blant a phobl ifanc.

##### *Sut fydd y cynnig yn effeithio ar fywydau plant, yn gadarnhaol ac yn negyddol?*

Yn dilyn yr achosion o goronafeirws newydd yn Tsieina ym mis Rhagfyr 2019, ac yna'r achos cyntaf a adroddwyd yn y DU ym mis Ionawr 2020, cyhoeddodd Llywodraeth y DU ei Chynllun Gweithredu i fynd i'r afael â'r Coronafeirws ar 3 Mawrth 2020. Fe'i cymeradwywyd gan y tair gweinyddiaeth ddatganoledig yn erbyn cefndir o bryder cynyddol gan y cyhoedd a sylw yn y cyfryngau:

<https://www.gov.uk/government/publications/coronavirus-action-plan>

Ar 11 Mawrth datganodd Sefydliad Iechyd y Byd yn ffurfiol fod yr achosion o goronafeirws wedi troi yn bandemig byd-eang. Bu datblygiad sylweddol yn y cyngor gwyddonol yn deillio o gyfarfodydd Grŵp Cyngori Gwyddonol ar Argyfyngau (SAGE) a chyfarfod Ystafelloedd Briffio Swyddfa'r Cabinet (Cobr) Llywodraeth y DU er mwyn ymateb i haint y Coronafeirws (COVID-19). Ar 18 Mawrth cyhoeddodd gweinyddiaethau Cymru, yr Alban a Lloegr y dylai ysgolion gau at ddibenion addysg statudol. Yng Nghymru, cyhoeddwyd datganiad ar y cyd gan y Gweinidog Addysg a'r Dirprwy Weinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar 20 Mawrth. Roedd y datganiad yn dweud:

- Lle bynnag y bo modd, dylid gofalu am blant gartref bellach;
- Er y byddai rhywfaint o ddarpariaeth gyfyngedig ar gael o hyd ar gyfer plant oedran ysgol ar safleoedd ysgol, dylid cyfyngu hyn i blant gweithwyr hanfodol a phlant sy'n agored i niwed;
- Nid yw'n ofynnol i ddarparwyr gofal plant gau, ond dylent flaenoriaethu'r ddarpariaeth ar gyfer plant gweithwyr hanfodol a phlant sy'n agored i niwed.

O ddydd Llun 23 Mawrth dim ond nifer fechan o blant ddylai fod naill ai mewn lleoliadau addysg neu ofal, er mwyn sicrhau y bydd llai o berygl trosglwyddo ac y cedwir pellter cymdeithasol. Roedd y penderfyniad hwn yn lleihau'n sylweddol nifer y plant mewn ysgolion a phlant sy'n derbyn gofal, ac arweiniodd at y rhan fwyaf o blant yn aros gartref.

Gweithiodd Llywodraeth Cymru yn barhaus gyda rhanddeiliaid i benderfynu pa gymorth oedd ei angen ar blant a'u teuluoedd, lleoliadau gofal plant ac awdurdodau

lleol, yn dilyn y penderfyniadau uchod. Er mwyn cefnogi'r sector, plant a'u teuluoedd, gwnaed y penderfyniadau canlynol yn ymwneud â gofal plant:

- Lle mae lleoliadau gofal plant yn parhau i fod ar agor, argymhellwyd eu bod yn cyfyngu ar y ddarpariaeth fel ei bod ond ar gael i blant gweithwyr hanfodol a phlant sy'n agored i niwed
- Ymrwymo i barhau i gyllido gofal plant a archebir dan y Cynnig Gofal Plant i Gymru am gyfnod o 3 mis
- Atal y Cynnig Gofal Plant i Gymru i newydd-ddyfodiaid ym mis Ebrill, gydag adolygiad ymhen 3 mis
- Sefydlu'r Cynllun Cymorth Gofal Plant yn sgil y Coronafeirws;
- Gohirio lansiad y cynllun gwaith chwarae: llwgu yn ystod y gwyliau;
- Gohirio'r grantiau cymorth ar gyfer y sector gofal plant a ddarperir gan Busnes Cymru;
- Atal y rhaglen Gwaith Gofal Plant a weinyddir gan yr NDNA;
- Gohirio caffael cyflenwyr er mwyn darparu'r hyfforddiant dan Gynnydd ar gyfer Llwyddiant;
- Darparu cyllid ychwanegol i gonsortiw Cwlwm ar gyfer gweithgareddau sy'n ymwneud â'r achosion o goronafeirws;
- Ailflaenoriaethu ac ail-ddynodi cyllid a gweithgareddau Gofal Cymdeithasol Cymru mewn cysylltiad â'r sector gofal plant; a
- Chyhoeddi cylchlythyr yn llacio gofynion penodol o fewn y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer gofal plant.

**Bydd y penderfyniadau polisi a nodir yn Adran 1 ac uchod yn debygol o effeithio ar blant yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol. Manylwyd ar yr effaith ar blant yn Adrannau 1-5 o'r Aseiad Effaith Integredig hwn, gan gynnwys y camau lliniaru cysylltiedig yr ydym wedi ceisio eu rhoi ar waith. Fodd bynnag, i grynhoi, mae'n debyg y bydd rhai o'r effeithiau allweddol a nodwyd fel a ganlyn:**

- Ile mae lleoliadau gofal plant yn parhau i fod ar agor, argymhellir eu bod yn cyfyngu ar y ddarpariaeth fel nad yw ond ar gael i blant gweithwyr hanfodol a phlant sy'n agored i niwed

Gyda'r cyhoeddiad bod pob plentyn, lle bo modd, yn aros gartref, cytunwyd y byddai angen sicrhau bod darpariaeth ar gael o hyd i'r plant hynny sy'n agored i niwed neu blant gweithwyr allweddol. Fodd bynnag, rhagwelir rhai effeithiau ychwanegol ar blant o gefndiroedd difreintiedig o ganlyniad i **absenoldeb o leoliadau gofal ac ysgolion**. Gall profiadau o ansawdd yn y blynyddoedd cynnar ddatblygu cydnerthedd plant ac mae'n helpu i atal problemau iechyd corfforol a meddyliol diweddarach. Gall gofal plant o ansawdd da hefyd gefnogi ymlyniad a datblygu perthnasoedd iach a lleihau tlodi i deuluoedd. Mae hefyd yn cefnogi'r plant hynny y nodwyd bod ganddynt anghenion diogelu ac sy'n cael cefnogaeth gofal cymdeithasol, sy'n cynnwys plant â chynlluniau cymorth neu gynlluniau gofal a chymorth, plant ar y gofrestr amddiffyn plant a phlant sy'n derbyn gofal, gofalwyr ifanc, plant anabl a'r rhai â Datganiadau o anghenion addysgol arbennig

Mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod y plant hyn yn elwa mwy o addysg a gofal plentyndod cynnar o ansawdd uchel na charfanau eraill, ac y gall helpu i unioni anfanteision datblygiadol a'r bwlch cyrhaeddiad. Mae ymchwil ar effeithiau'r achosion o Goronafeirws, ac yn benodol effeithiau bod absenoldeb o leoliadau gofal plant ac addysg, yn cael ei hystyried ac fe roddir sylw pellach i hyn.

➤ **Sefydlu'r Cynllun Cymorth Gofal Plant yn sgil y Coronafeirws**

Yng ngoleuni'r penderfyniad i atal y Cynnig Gofal Plant i Gymru ar 6 Ebrill 2020, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y byddai'r cyllid yn cael ei ail-ddynodi i sefydlu'r Cynllun Cymorth Gofal Plant yn sgil y Coronafeirws. Y tri phrif ffactor a ystyriwyd wrth sefydlu'r Cynllun Cymorth oedd:

- Cyngor gwyddonol y Llywodraeth yn galw ar blant i aros gartref lle bynnag y bo modd ac i beidio â mynychu lleoliadau gofal plant nac ysgolion;
- Yr argymhelliad fod lleoliadau gofal plant yn parhau i fod ar agor ar gyfer plant gweithwyr hanfodol a phlant sy'n agored i niwed yn unig, sy'n golygu nad oedd y rhan fwyaf o blant yn bresennol;
- Yr angen i ddarparu gofal plant diogel wedi'i ariannu ar gyfer plant gweithwyr hanfodol a phlant agored i niwed.

Yn ogystal â hyn, ystyriwyd yr angen i barhau i gynnig cymorth i blant anabl a phlant ag anghenion addysgol arbennig neu anghenion dysgu ychwanegol.

Roedd awdurdodau lleol yn ein hysbysu am nifer o deuluoedd plant cyn oed ysgol yr oedd angen cymorth arnynt ond nad oeddent yn gallu fforddio gofal plant – roedd llawer wedi dibynnu'n flaenorol ar ofal plant anffurfiol gan aelodau o'r teulu a oedd bellach yn gwarchod eu hunain. Mynegwyd pryderon hefyd ynghylch plant sy'n agored i niwed, a oedd yn cael llai o gyswllt â gwasanaethau cymorth. O ganlyniad, teimlwyd y byddai'n ddefnydd mwy priodol o'r cyllid i ddarparu gofal i blant cyn oed ysgol gweithwyr hanfodol a phlant sy'n agored i niwed.

Edrychwyd o'r newydd ar ddiben y gwerthusiad annibynnol o'r Cynnig Gofal Plant i ystyried y Cynllun Cymorth Gofal Plant yn sgil y Coronafeirws hefyd. Bydd yn ffurfiannol yn bennaf ond bydd hefyd yn ystyried yr effaith debygol ar y teuluoedd hynny nad ydynt wedi derbyn gofal plant ffurfiol o'r blaen, a byddwn yn ystyried hyn yn fanylach gan ddefnyddio data gweinyddol y Llywodraeth sy'n cysylltu yn y tymor hir (h.y. archwilio amrywiadau mewn addysg plant a chanlyniadau iechyd, a chanlyniadau posibl i rieni hefyd).

**Un effaith gadarnhaol ar blant fwy na thebyg yw y bydd mwy o rieni'n ystyried defnyddio darpariaeth gofal plant yn y dyfodol, a fyddai'n cefnogi datblygiad a dysgu'r plentyn hwnnw ymhellach.**

➤ **Gohirio lansiad y cynllun gwaith chwarae: llwgu yn ystod y gwyliau**

Roedd y penderfyniad i ofyn i leoliadau gofal plant, gan gynnwys lleoliadau chwarae, aros ar agor i blant gweithwyr hanfodol a phlant sy'n agored i niwed yn unig yn

cyfyngu ar allu'r lleoliadau hyn i weithredu. Mae rheolau cadw pellter cymdeithasol hefyd yn cyfyngu ar y ffordd y gall lleoliadau chwarae weithredu ar hyn o bryd. Ochr yn ochr â hyn, cyhoeddodd y Gweinidog Addysg gyllid i barhau i ddarparu Prydau Ysgol am Ddim drwy gydol gwyliau'r Pasg, gan leddfu'r pwysau o ran plant yn llwgu yn ystod y gwyliau a chefnogi plant a'u teuluoedd.

Ystyriwyd ei bod yn briodol gohirio'r prosiect, gan ei alluogi i gael ei ailystyried yn ddiweddarach yn y flwyddyn, yng nghyd-destun yr argyfwng a oedd yn esblygu, gweithrediad y sector ar yr adeg honno a'r sefyllfa o ran darparu Prydau Ysgol am Ddim. Ym mis Mehefin 2020, ymddengys bellach yn debygol y caiff y cyllid ar gyfer y cynllun ei ail-ddynodi i alluogi awdurdodau lleol i ddarparu gofal i blant oedran ysgol sy'n agored i niwed dros wyliau'r haf. Fe'i galluogir yn rhannol gan yr ymrwymiad i gynnal darpariaeth Prydau Ysgol am Ddim drwy gydol yr haf, a pharhad y Cynllun Cymorth Gofal Plant yn sgil y Coronafeirws, sy'n cefnogi plant iau.

Mae'r penderfyniadau polisi a amlinellir uchod yn gydgysylltiedig ac felly maent yn cael eu cyflwyno mewn un Asesiad Effaith Integredig sy'n caniatáu i Lywodraeth Cymru ystyried effaith y penderfyniadau hyn a chamau lliniaru. Dylid ei ddarllen hefyd ochr yn ochr ag Asesiad Effaith Integredig Covid-19 ar gyfer Addysg.

Caiff pob penderfyniad polisi o fewn yr Asesiad Effaith Integredig ei adolygu'n rheolaidd yng ngoleuni cyngor gwyddonol sy'n dod i'r amlwg gan SAGE, lechyd Cyhoeddus Cymru ac ymateb parhaus Llywodraeth Cymru i'r pandemig presennol, gan ystyried penderfyniadau polisi eraill Llywodraeth Cymru a allai effeithio ar y rhai a amlinellir uchod. Bydd y gwersi a ddysgwyd o bob penderfyniad polisi hefyd yn cyfrannu at adferiad y sector gofal plant. Dylid darllen yr Asesiad Effaith Integredig hwn hefyd ochr yn ochr â'r Asesiad Effaith Integredig ar gyfer Adfer y Sector Gofal Plant.

➤ Gohirio neu oedi gyda datblygu'r gweithlu

Uchelgais Llywodraeth Cymru yw datblygu gweithlu gofal plant a chwarae medrus iawn sy'n cael ei gydnabod am y swyddogaeth hollbwysig sydd ganddo wrth gefnogi datblygiad ein plant. Os oes gan y gweithlu yr wybodaeth, y sgiliau a'r arferion i ddarparu gofal plant a chwarae o ansawdd uchel, gall yr effeithiau ar blant fod yn sylweddol. Gofal Cymdeithasol Cymru yw ein partner cyflenwi allweddol yn hyn o beth ac maent wedi bod yn parhau â'u gwaith hanfodol i sicrhau bod gennym y fframweithiau cymwysterau a phrentisiaethau angenrheidiol ar waith ac y gellir cefnogi'r gweithlu nawr, lle bo'n bosibl, i barhau â'u dysgu a'u cymwysterau.

Er nad yw gohirio neu oedi gyda grantiau, rhaglenni neu weithgareddau sy'n ymwneud â datblygu'r gweithlu yn cael effaith uniongyrchol ar blant, gall fod effeithiau anuniongyrchol. Mae astudiaethau wedi dangos bod datblygiad proffesiynol parhaus ymarferydd yn y sector gofal plant o fudd mawr i ymarferwyr a phlant (Ymchwil o astudiaeth FEEL). Gallai gohirio a/neu oedi gyda gwahanol raglenni, gweithgareddau a grantiau sy'n cefnogi'r sector gael effaith negyddol, yn y tymor byr, ar ddatblygiad y plentyn. Fodd bynnag, mae'r penderfyniadau hyn yn rhai

dros dro a bydd yr amrywiol elfennau yn debygol o aildechrau yn ddiweddarach a byddant felly'n cefnogi'r ymarferydd a'r plentyn yn y dyfodol.

***Sut fydd y cynnig yn effeithio ar wahanol grwpiau o blant (e.e. plant sydd wedi cael profiadau niweidiol yn ystod plentyndod, plant sy'n byw mewn tlodi, plant anabl, plant sy'n byw ar aelwydydd Cymraeg eu hiaith a phlant mewn addysg cyfrwng Cymraeg ac ati.)***

Roedd y penderfyniad i gyfyngu ar nifer y plant mewn lleoliadau gofal plant yn seiliedig ar gyngor gwyddonol ynghylch trosglwyddo'r Coronafeirws a chyfraddau heintio; roedd hwn yn benderfyniad iechyd cyhoeddus a fwriadwyd i ddarparu'r amddiffyniad mwyaf i'r boblogaeth ehangach. Y prif sbardun oedd diogelu bywyd, gyda hynny'n cael ei ystyried yn hollbwysig.

Wrth benderfynu ar hyn roeddem yn ymwybodol o'r posibilrwydd y byddai effeithiau ychwanegol ar blant o gefndiroedd difreintiedig o ganlyniad i **absenoldeb o leoliadau gofal plant ac ysgolion**. Mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod y plant hyn yn elwa mwy ar addysg a gofal plentyndod cynnar o ansawdd uchel na charfanau eraill, ac y gall hyn helpu i unioni anfanteision datblygiadol a'r bwlch cyrhaeddiad. Roeddem hefyd yn ymwybodol o'r effeithiau posibl ar blant ag anghenion ychwanegol, a'u teuluoedd. Mynegwyd pryderon hefyd ynglŷn â'r ffordd orau o sicrhau gofal diogel i blant gweithwyr hanfodol.

Yn wahanol i'r Cynnig Gofal Plant lle mae'r llywodraeth yn ariannu hyd at 30 awr o addysg gynnar (Addysg Feithrin y Cyfnod Sylfaen) a gofal plant i blant 3 a 4 oed teuluoedd cymwys, mae'r Cynllun Cymorth Gofal Plant yn sgil y Coronafeirws, a gaiff hefyd ei weinyddu gan awdurdodau lleol, ar gael i bob plentyn cyn oed ysgol (0-5) y mae ei riant / rhieni yn weithwyr hanfodol ac i bob plentyn sy'n agored i niwed. Mae hyn yn cynnwys gweithwyr mewn llochesi ac mewn mathau eraill o lety sy'n cynnig cymorth i bobl sydd wedi dioddef cam-drin domestig. Fodd bynnag, bydd gweithwyr hanfodol sydd â phlant oedran ysgol yn parhau i anfon eu plant<sup>1</sup> i'r ysgol, os na allant aros gartref.

Mae'r cyllid a ddyrennir i awdurdodau lleol i ddarparu cronfa Cynllun Cymorth Gofal Plant yn Sgil y Coronafeirws yn talu am y canlynol:

- Cost gofal plant i blant cyn oed ysgol gweithwyr hanfodol cymwys a phlant cyn oed ysgol sy'n agored i niwed (fel y'u diffinnir gan Ganllawiau Llywodraeth Cymru)
- gofal y tu allan i oriau i weithwyr allweddol yn ychwanegol at gostau gofal plant arferol;
- cyfradd fesul awr y cytunwyd arni;

---

<sup>1</sup> Gellir dod o hyd i restr o Weithwyr Allweddol [yma](#).

- costau bwyd a chludiant rhesymol;
- cymorth ychwanegol i blant cyn oed ysgol sy'n agored i niwed (yn amodol ar gyngor Iechyd Cyhoeddus Cymru ynglŷn â chadw pellter cymdeithasol);
- oriau wedi'u harchebu ar gyfer plant na allant fynychu gan eu bod yn ynysu oherwydd COVID-19 ond a oedd â lle wedi'i archebu am uchafswm o bythefnos.

Datblygwyd a chyhoeddwyd canllawiau gyda chymorth awdurdodau lleol i gefnogi'r broses o weinyddu'r Cynllun Cymorth Gofal Plant yn sgil y Coronafeirws.

Diben cyflwyno'r Cynllun Cymorth Gofal Plant yw unioni rhai o'r effeithiau a nodwyd uchod drwy ddarparu cyllid ar gyfer costau gofal plant gweithwyr hanfodol a phlant sy'n agored i niwed. I weithwyr hanfodol, mae hyn yn sicrhau y darperir gofal diogel, wedi ei ariannu, gan sicrhau cymorth a threfn i blant, pethau y mae eu dirfawr angen, ar adeg anodd i deuluoedd. Mae hyn yn cynnwys gofal posibl gyda'r nos ac ar benwythnosau, os yw ar gael, darparu dilyniant i blant pan fo'n rhaid i'w rhieni weithio, a phan nad oes modd i aelodau o'r teulu ehangach ofalu am y plant.

Bydd llawer o'r teuluoedd hyn ar incwm isel, gyda gweithwyr gofal cymdeithasol, ac yn benodol yn cael yr isafswm cyflog neu lai.

Mae'r diffiniad o blant sy'n agored i niwed yn eang ac yn cwmpasu'r rhai sydd â gweithwyr cymdeithasol, y rhai ar gyrion gofal neu sydd ag anghenion ychwanegol gan gynnwys anabledau ac anghenion addysgol arbennig. Mae hwn yn ddiffiniad y cytunwyd arno'n genedlaethol, gan gwmpasu plant sydd efallai wedi bod mewn cysylltiad ag amrywiaeth o wasanaethau cymorth a oedd naill ai wedi cael eu cwtdgi neu eu darparu'n wahanol. Cynigiwyd gofal plant wedi'i ariannu i gefnogi'r plant a'r teuluoedd hyn yn ystod cyfnod heriol. Mae trefniadau ar gyfer elwa ar y Cynllun Cymorth Gofal Plant yn sgil y Coronafeirws wedi'u cydgyssylltu ar lefel Awdurdod Lleol, gan weithio gydag ystod o adrannau a gwasanaethau.

Mae derbyn gofal rheolaidd a pharhad gofal yn bwysig i lawer o'r plant hyn. At hynny, gall gofal plant gefnogi'r ymdrech i ddiogelu rhai o'n plant mwyaf agored i niwed. Mae'r Cynllun Cymorth Gofal Plant yn cynnwys opsiynau ar gyfer talu am fwyd a chludiant i alluogi plant i gael gofal ac elwa o hynny yn ôl yr angen. Mae gan awdurdodau lleol y rhyddid hefyd i ddarparu gofal i frodyr a chwiorydd hŷn o oedran ysgol yn yr un lleoliad â phlant cyn oed ysgol drwy'r Cynllun Cymorth Gofal Plant i gefnogi cydlyniant teuluol.

Mae'r Cynllun Cymorth Gofal Plant wedi cefnogi hyd at 450 o blant sy'n agored i niwed i gael gofal plant bob wythnos. Bydd cyfanswm y nifer yn fwy na hyn oherwydd bydd rhai plant sy'n agored i niwed wedi mynychu ar rai wythnosau ond nid eraill. Ni fydd gennym y ffigurau terfynol gan yr Awdurdodau Lleol nes i'r cynllun ddod i ben.

Mae ymchwil ar effeithiau'r Coronafeirws, ac yn benodol effeithiau absenoldeb o leoliadau gofal plant ac addysg, yn cael ei gloriannu. Caiff hyn ei ystyried ymhellach a bydd yn cyfrannu at yr Asesiad hwn o'r Effaith ar Hawliau Plant.

Mae'r rhan fwyaf o blant bellach yn derbyn gofal gartref, ac ni fydd atal grantiau/gweithgareddau penodol a'r Cynnig Gofal Plant wedi effeithio'n andwyol ar blant a oedd gynt yn defnyddio darpariaeth gofal plant wedi ei hariannu, gan gynnwys y rhai mewn grwpiau gwarchoddedig, dim mwy na phenderfyniadau ehangach am leihau rhyngweithio cymdeithasol a gofynion cadw pellter cymdeithasol. Ni fyddai plant o bob cefndir wedi gallu mynychu gofal plant fel y bwriadwyd beth bynnag. O ganlyniad, credwn fod effeithiau atal y Cynnig Gofal Plant fwy neu lai yr un fath i bob plentyn – ac nid atal yw'r prif reswm pam nad yw'r plant yn mynychu lleoliadau gofal plant. Y rheswm yw bod yna argyfwng iechyd cyhoeddus a bod angen cadw plant yn ddiogel a lleihau cyfradd trosglwyddo'r feirws.

## **2. Pa dystiolaeth a ddefnyddiwyd gennych yn sail i'ch asesiad, gan gynnwys tystiolaeth gan blant neu eu cynrychiolwyr?**

**Defnyddiwyd amrywiaeth o wybodaeth i lywio'r asesiad hwn a'r penderfyniadau i atal y cynnig gofal plant a chyflwyno'r Cynllun Cymorth Gofal Plant yn sgil y Coronafeirws, gan gynnwys:**

- **Cyngor gwyddonol ac iechyd gan bwyllgorau COBR a SAGE, yn ogystal â gwybodaeth a chyngor gan Iechyd Cyhoeddus Cymru;**
- **Data a gasglwyd ac a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru a'i phartneriaid allweddol;**
- **Ymchwil ac erthyglau newyddion a gyhoeddwyd yn ystod y pandemig;**
- **Ymchwil flaenorol y gellir ei defnyddio i ddod i gasgliadau;**
- **Canlyniad ymgynghoriadau a gynhaliwyd gan randdeiliaid allweddol ar y penderfyniadau polisi hyn, er enghraifft Cwllwm**
- **Profiad a gweithredoedd gwledydd eraill y mae rhai ohonynt ar gam mwy datblygedig o ymateb i'r pandemig neu sydd wedi gwneud dewisiadau polisi gwahanol;**
- **Adborth gan randdeiliaid allweddol a chyrff cynrychioliadol;**
- **Ymholiadau gan ddeiliaid, gan gynnwys rhieni, Awdurdodau Lleol, Lleoliadau a rhieni yn uniongyrchol i Fiwch Post Dweud eich Dweud ar Ofal Plant;**
- **Gwybodaeth a ddarparwyd gan AGC am nifer y lleoliadau gofal plant sy'n cau;**
- **Adborth gan Awdurdodau Lleol ynghylch pryderon am gostau gofal plant gweithwyr hanfodol;**
- **I gydnabod bod gofal plant yn bwysig i gyflogadwyedd<sup>2</sup> a thwf economaidd<sup>3</sup>, argymhellodd arbenigwyr annibynnol y dylid darparu cyllid gan y llywodraethi blant gweithwyr hanfodol (gweler astudiaeth IFS<sup>4</sup> er enghraifft).**

---

<sup>2</sup> <https://llyw.cymru/cynllun-cyflogadwyedd>

<sup>3</sup> <https://gov.wales/prosperity-all-economic-action-plan>

<sup>4</sup> Christine Farquharson, Imran Rasul and Luke Sibieta (2020) Keeping key workers working: the role of pre-school childcare. 2/4/2020 <https://www.ifs.org.uk/publications/14788>

Roedd y dystiolaeth a oedd ar gael i ddechrau yn canolbwyntio ar beryglon trosglwyddo, a'r ffordd orau o reoli cyfraddau heintio cyffredinol. Dangosodd hyn yn glir mai'r ffordd orau o reoli'r feirws oedd lleihau'r lefel o gyswllt cymdeithasol rhwng unigolion. Am y rheswm hwn, penderfynwyd cyfyngu ar nifer y plant mewn lleoliadau gofal plant a galw am ofalu am blant gartref. Gan fod cyfraddau trosglwyddo cyffredinol wedi gostwng a bod cyfyngiadau wedi'u lliniaru, mae o hyd risg yn gysylltiedig â chynyddu nifer y cysylltiadau sydd gan blant ac oedolion. Fodd bynnag, mae'r dystiolaeth bellach yn awgrymu bod y risgiau sy'n gysylltiedig â chynyddu darpariaeth gofal plant yn is nag ar gyfer ysgolion cynradd, sydd yn eu tro yn is nag ar gyfer ysgolion uwchradd.

Mae dystiolaeth lu sy'n dangos manteision addysg gynnar a gofal plant o ansawdd uchel, ac yn arbennig y manteision y gall hyn eu cynnig i blant difreintiedig. Codwyd pryderon drwy gydol y cyfnod hwn am effeithiau absenoldebau estynedig o'r ysgol a gofal plant ar ddatblygiad a chyrhaeddiad plant. Roedd yr ymateb cychwynnol yn canolbwyntio ar ddiogelu iechyd y cyhoedd ac achub bywydau, ond yr hiraf y bydd y cyfyngiadau'n para y mwyaf yw'r effeithiau a'r angen i ystyried sut i ailagor gwasanaethau.

Mae'r data gan AGC yn awgrymu bod tua 60% o leoliadau gofal plant wedi cau dros dro yn ystod y cyfnod hwn. Bydd hyn yn effeithio ar allu'r sector i ailgychwyn ac adfer, ac i blant a rhieni gael mynediad at ddarpariaeth gofal plant. Roedd y capasiti llai hwn yn sail i'r penderfyniad i atal y Cynnig i newydd-ddyfodiaid (gan na allai plant gael gofal plant) a chyflwyno'r Cynllun Cymorth Gofal Plant yn sgil y Coronafeirws (cynnal darpariaeth ar gyfer gweithwyr hanfodol a phlant sy'n agored i niwed).

Cafwyd rhywfaint o dystiolaeth anghyson o ran mynediad plant at gyfleoedd chwarae yn ystod y cyfnod hwn. Awgrymodd yr arolwg Coronafeirws a Fi fod mwy o blant wedi bod yn chwarae gyda rhieni dros y cyfnod hwn, tra bod Chwarae Cymru wedi canfod dystiolaeth sy'n awgrymu bod y diffyg mynediad i fannau gwyrdd wedi effeithio ar gyfleoedd chwarae.

Yn y tymor hwy bydd angen mwy o ymchwil i effeithiau Covid19 a'r ymateb i'r feirws ar blant a phobl ifanc. Bydd angen i hyn gwmpasu effeithiau corfforol, emosiynol ac iechyd meddwl.

Defnyddiwyd y dystiolaeth wyddonol i ddatblygu'r Canllawiau mesurau diogelu, er mwyn sicrhau bod y lleoliadau gofal plant hynny'n dal i fod ar agor ac yn gofalu am blant sy'n agored i niwed a bod plant gweithwyr hanfodol yn gwneud hynny'n ddiogel. Diweddarwyd y Canllawiau yng ngoleuni unrhyw dystiolaeth newydd a ddaeth i'r amlwg.

*3. Sut wnaethoch chi ymgynghori â phlant a phobl ifanc? Os nad ydych wedi gwneud hynny, esboniwch pam.*

Oherwydd brys yr ymateb cychwynnol a'r brys i wneud rhai o'r penderfyniadau polisi cychwynnol a'u gweithredu wedyn, nid oedd o reidrwydd yn bosibl



**ymgyngori â phlant, pobl ifanc na rhanddeiliaid ehangach ar y pryd. Fodd bynnag, mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi bod yn gweithio gyda'r awdurdodau lleol a'r sefydliadau ymbarél yn y sector gofal plant i gefnogi'r plant a'r teuluoedd hynny y bydd y penderfyniadau presennol yn effeithio arnynt.**

**Ailystyriwyd diben y gwerthusiad o'r Cynnig Gofal Plant i Gymru i gynnwys effeithiau'r Cynllun Cymorth Gofal Plant yn sgil y Coronafeirws.** Bydd yn ffurfiannol yn bennaf ond bydd hefyd yn ystyried yr effaith debygol ar y teuluoedd hynny nad ydynt wedi derbyn gofal plant ffurfiol o'r blaen, a byddwn yn ystyried hyn yn fanylach gan ddefnyddio data gweinyddol y llywodraeth sy'n cysylltu yn y tymor hir (h.y. archwilio amrywiadau mewn addysg plant a chanlyniadau iechyd, a chanlyniadau posib i rieni hefyd.) Cynhelir arolwg o rieni ac arolwg ar wahân o ddarparwyr.

Ar hyn o bryd nid oes unrhyw gynlluniau i siarad â phlant a phobl ifanc yn rhan o'r gwerthusiad o'r Cynnig a'r Cynllun Cymorth Gofal Plant yn sgil y Coronafeirws. Bydd angen ystyried y ffordd orau o gynnwys plant a phobl ifanc yn y gweithgareddau ymchwil a gwerthuso ehangach sy'n gysylltiedig â'r ymateb i'r coronafeirws.

Mewn prosiect ar y cyd â Chomisiynydd Plant Cymru, Plant yng Nghymru a chyda chefnogaeth y Senedd leuencid, lansiodd Llywodraeth Cymru arolwg ar-lein ledled y wlad ar yr Coronafeirws er mwyn rhoi cyfle i blant a phobl ifanc ddweud wrthym beth yw eu barn am y Coronafeirws a'r holl newidiadau a gyflwynwyd gan y pandemig. Yn seiliedig ar yr Erthyglau yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, dyluniwyd yr arolwg mewn partneriaeth â phlant a phobl ifanc ac mae wedi ceisio barn dros 20,000 o blant a phobl ifanc wrth iddynt fyw drwy'r cyfnod digynsail hwn. Defnyddir canlyniadau'r arolwg i sicrhau bod hawliau a barn plant yn cael eu hadlewyrchu yn ystod ac ar ôl yr argyfwng Coronafeirws. Anelwyd yr arolwg at blant rhwng 7 ac 11 oed a phobl ifanc rhwng 11 a 18 oed. Bydd plant iau (3-7 oed) yn gallu cymryd rhan drwy wefan Comisiynydd Plant Cymru drwy anfon lluniau.

#### **4. *Pa dystiolaeth arall fyddai'n sail i'r asesiad?***

Cynhelir cyfarfodydd wythnosol gyda chynghorwyr gwyddonol i sicrhau ein bod yn ymwybodol o'r cyngor gwyddonol diweddaraf ac yn ei ddeall. Mae hyn yn ein galluogi i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y canllawiau ar fesurau diogelu lle bo angen ond hefyd i ddeall pryd y byddai'n briodol cynyddu darpariaeth lleoliadau gofal plant. Gellir darparu cyngor ar yr agwedd olaf hon yn rhan o'r cylch Adolygu 21 Diwrnod. Mae hyn yn cynnwys pryd, yn ogystal â sut, y gall lleoliadau gofal plant ailagor a darparu'r cymorth sydd ei angen ar rieni (diweddariad i ganllawiau'r Mesurau Diogelu ar grwpiau cyson bach ac ati).

Rydym yn cadw mewn cysylltiad â chydweithwyr yng Ngwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi Llywodraeth Cymru sy'n cydlynu ymchwil a dadansoddiad sy'n gysylltiedig â'r coronafeirws, er mwyn sicrhau o hyd bod tystiolaeth berthnasol yn sail i'n polisi a'n hasesiadau. Rydym mewn cysylltiad rheolaidd â dadansoddwyr y llywodraeth drwy Grŵp Dadansoddi Blynyddoedd Cynnar Traws-Llywodraeth y DU ac Iwerddon. Hefyd, rydym yn cadw mewn cysylltiad rheolaidd â chyllidwyr ymchwil

blaenllaw (ee. Sefydliad Nuffield) ac academyddion i ofyn am eu barn (ee. David Dallimore, Luke Sibieta, ac ati) a sicrhau y manteisir i'r eithaf ar dystiolaeth berthnasol ynglŷn ag effaith esblygol y pandemig a bod hynny'n sail i'n cynlluniau.

## 5. Eglurwch sut mae'r cynnig yn debygol o effeithio ar hawliau plant.

Isod ceir tabl o erthyglau'r CCUHP sydd fwyaf perthnasol i'r penderfyniadau uchod.

Rhif Erthygl	Disgrifiad	Cysylltiadau â phenderfyniadau
2	Mae'r Confensiwn yn gymwys i bob plentyn heb wahaniaethu, ni waeth beth fo'i ethnigrwydd, rhyw, crefydd, iaith, galluoedd neu unrhyw statws arall, ni waeth beth mae'n ei feddwl neu'n ei ddweud, ni waeth beth fo'i gefndir teuluol.	Yng ngoleuni'r pandemig, mae pob plentyn yn derbyn gofal gartref ar hyn o bryd lle bo hynny'n bosibl. Mae sefydlu'r Cynllun Cymorth Gofal Plant yn sgil y Coronafeirws yn caniatáu i rieni sy'n weithwyr hanfodol gael gofal plant wedi'i ariannu ar gyfer pob plentyn 0-5 oed, waeth beth fo'u cefndir. Mae modd i blant a gyfrifir yn blant sy'n agored i niwed dan y pandemig presennol gael gofal plant a ariennir hefyd.
3	Rhaid i lesiant pennaf y plentyn fod yn brif flaenoriaeth ym mhob penderfyniad a cham gweithredu sy'n effeithio ar blant.	Er mwyn cadw plant a'u teuluoedd yn ddiogel yn ystod y pandemig, roedd angen gofalu am y plant gartref os oedd modd. Lle nad oedd hyn yn bosibl, mae'r penderfyniad i ariannu gofal plant ar gyfer plant 0-5 oed gweithwyr hanfodol a'r plant hynny sy'n agored i niwed ac i atal y Cynnig Gofal Plant, yn sicrhau bod y plant hynny'n dal i gael gofal plant o safon yn ystod y pandemig.
6	Mae gan bob plentyn yr hawl i fywyd. Rhaid i lywodraethau wneud popeth o fewn eu gallu i sicrhau bod plant yn goroesi ac yn datblygu i'w llawn botensial.	Mae cau lleoliadau Gofal Plant a'r Cynllun Gwaith Chwarae: Llwg yn Ystod y Gwyliau yng ngoleuni'r pandemig a'r cyngor meddygol a gwyddonol sydd ar gael ar yr adeg y gwnaed y penderfyniadau yn sicrhau diogelwch plant ac ymarferwyr drwy gyfyngu ar gyswllt.

18	Dylai'r ddau riant rannu'r cyfrifoldeb dros fagu eu plentyn a dylent ystyried yr hyn sydd orau i'r plentyn bob amser. Rhaid i lywodraethau gefnogi rhieni drwy greu gwasanaethau cymorth ar gyfer plant a rhoi'r help sydd ei angen ar rieni i fagu eu plant.	Mae darparu cymorth drwy sefydlu'r Cynllun Cymorth Gofal Plant yn sgil y Coronafeirws yn caniatáu i'r rhieni hynny sy'n weithwyr hanfodol elwa o ddarpariaeth gofal plant a ariennir fel y gallant barhau i weithio yn ystod y pandemig hwn. Mae hyd at 8,000 o blant gweithwyr hanfodol yn defnyddio'r ddarpariaeth bob wythnos.
23	Mae gan blant anabl yr hawl i fyw bywyd llawn a gweddus gydag urddas ac annibyniaeth, i'r graddau mwyaf posibl, yn ogystal â chwarae rhan weithredol yn y gymuned. Rhaid i lywodraethau wneud popeth o fewn eu gallu i gefnogi plant anabl a'u teuluoedd.	At ddibenion Cynllun Cymorth Gofal Plant yn sgil y Coronafeirws gwneir darpariaeth ar gyfer plant sy'n agored i niwed gan gynnwys y rhai sydd â gweithiwr cymdeithasol a chyda Datganiadau o anghenion addysgol arbennig. Dylai awdurdodau lleol flaenoriaethu'r rhai mwyaf agored i niwed yn ôl plant sydd â'r angen mwyaf am y ddarpariaeth.
24	Mae gan bob plentyn yr hawl i'r iechyd gorau posibl. Rhaid i lywodraethau ddarparu gofal iechyd o ansawdd da, dŵr glân, bwyd maethlon, amgylchedd glân ac addysg ar iechyd a llesiant fel y gall plant aros yn iach.	Mae effaith bosibl ar y teuluoedd hynny o gefndiroedd difreintiedig a all fod yn dibynnu ar y cynllun hwn yn ystod y gwyliau i fwydo eu plentyn. Bydd hyn yn parhau i gael ei fonitro a'i adolygu ynghyd â phenderfyniadau'r Adran Addysg a newidiadau ynghylch Prydau Ysgol am Ddim yn ystod y pandemig
28	Mae gan bob plentyn yr hawl i addysg.	Mae'r Gweinidog Addysg wedi cyhoeddi pecyn Parhad Dysgu, sy'n cael ei ategu gan fynediad at offer TGCh, i gefnogi hawl plant oedran ysgol i barhau mewn addysg.  Drwy atal y Cynnig Gofal Plant a sefydlu'r Cynllun Cymorth Gofal Plant yn sgil y Coronafeirws, mae gan bob plentyn 0-5 oed yng Nghymru sydd naill ai'n blentyn i weithwyr

		hanfodol neu y bernir ei fod yn agored i niwed fynediad at addysg a gofal cynnar o safon.
<b>31</b>	Mae gan bob plentyn yr hawl i gymryd rhan mewn gweithgareddau chwarae a hamdden	<p>Mae'n anochel y bydd y cyfyngiadau symud, ynghyd â chau lleoliadau gofal plant ac ysgolion i'r rhan fwyaf o ddisgyblion, yn effeithio ar gyfleoedd chwarae plant.</p> <p>Mae'r canllawiau a ddarperir i gefnogi'r ddarpariaeth ar gyfer plant gweithwyr hanfodol a phlant sy'n agored i niwed yn rhoi cyngor ar y mathau o weithgareddau y dylid eu hystyried, gan gynnwys: hyrwyddo mwynhad plant drwy chwarae, darparu trefn a chydbwysedd gan gynnwys dysgu, chwarae ac ymlacio a gwneud y defnydd gorau posibl o fannau awyr agored. Er mai mater i awdurdodau lleol a'u lleoliadau/ysgol yw natur y trefniadau a sut y cânt eu hadnoddau, mae nifer o enghreifftiau lle mae awdurdodau wedi defnyddio gweithwyr chwarae i ddarparu gwahanol fathau o weithgareddau chwarae i gefnogi plant i chwarae'n rhydd ond yn ddiogel.</p> <p>Mae Chwarae Cymru hefyd wedi cyhoeddi canllawiau a gwybodaeth i rieni ar bwysigrwydd chwarae a sut y gallant greu mwy o gyfleoedd i chwarae hyd yn oed yn y cyfnod heriol hwn.</p>